WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Safbwynt y Defnyddiwr Gwasanaeth – y Gwasanaeth Llyfrgell – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**


Blwyddyn archwilio: 2017-18

**Dyddiad cyhoeddi:** Mehefin 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 589A2018-19

.

Paratowyd y gwaith hwn fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol. Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Sabel Wiliam, Charlotte Owen, Gwilym Bury, Andy Bruce a Jeremy Evans, dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaethau yn fodlon ar ansawdd a hygyrchedd eu llyfrgell leol, ac mae'r Cyngor yn gwneud defnydd da o safbwyntiau pobl i foderneiddio'r gwasanaeth.


Adroddiad cryno

Cynigion ar gyfer gwella 5

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor yn gwneud defnydd da o safbwyntiau pobl i foderneiddio'r gwasanaeth llyfrgell 6

Mae'r Cyngor wedi gwella safonau ac mae defnyddwyr gwasanaethau'n fodlon iawn ar ansawdd y gwasanaeth llyfrgell 7

Gall pobl gael mynediad at wasanaethau llyfrgell yn hawdd 8

Atodiadau

Atodiad 1 – ffeithlun sy'n crynhoi canfyddiadau allweddol yr arolygon a gwblhawyd 10

# Adroddiad cryno

1 Wrth ddefnyddio gwasanaethau llyfrgell, fel yn achos llawer o wasanaethau llywodraeth leol, nid oes dewis arall ar gael i ddefnyddwyr o ran darparwr gwasanaeth. Gan nad oes unrhyw ddarparwr gwasanaeth amgen, mae gallu defnyddwyr gwasanaethau i ddylanwadu ar wasanaethau yn dibynnu ar 'lais' yn hytrach na 'dewis'. Mae hyn yn golygu bod sicrhau bod safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau yn cael eu clywed yn bwysig wrth gynllunio a darparu gwasanaethau ac ymyriadau y bwriedir iddynt ddiwallu anghenion pobl.

2 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill ystyried egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio sy'n ei diffinio. Mae 'cynnwys' yn un o'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

3 Mae'r Papur Gwyn ar Lywodraeth Leol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth â dinasyddion:

> 'Rydym am ddatblygu perthynas fwy cyfartal gyda dinasyddion. Rôl gwasanaethau cyhoeddus ddylai fod i helpu pobl i fyw bywydau annibynnol a cheisio lleihau'r galw, gan ymyrryd dim ond lle mae hynny'n angenrheidiol a dim ond cyhyd ag sydd angen. O wneud hynny mae'r ffocws yn symud yn anorfod at atal, ac at wasanaeth cyhoeddus sy'n gallu gwneud mwy i helpu pobl i osgoi argyfwng, yn hytrach na chanolbwyntio ar helpu pobl mewn argyfwng. Creu gwasanaethau cyhoeddus darbodus i'r dyfodol yw'r nod.'[1]

4 Yn 2017-18, cwblhaodd Swyddfa Archwilio Cymru waith i ddeall 'safbwynt y defnyddiwr gwasanaeth' ym mhob cyngor yng Nghymru. Mabwysiadwyd dull gweithredu cymharol debyg ym mhob cyngor, ond cytunwyd ar y ffocws penodol a'r ffordd y câi'r adolygiad ei gynnal yn unigol. Yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (y Cyngor) adolygwyd y gwasanaeth llyfrgell. Yn benodol, p'un a oedd y Cyngor yn defnyddio profiadau a dyheadau defnyddwyr gwasanaethau i lywio'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau.

5 Er na fu'n bosibl i ni siarad â phob defnyddiwr llyfrgell, arolygwyd sampl o ddefnyddwyr gwasanaethau, ym mis Ionawr 2018, er mwyn ein helpu i ddeall eu safbwynt. Siaradwyd â 50 o bobl yn ystod ymweliadau â llyfrgell ardal Conwy, llyfrgell gymunedol Llanfairfechan a'r llyfrgell deithiol yn Neganwy.

6 Llywiodd y wybodaeth hon, yn ogystal â data ar berfformiad a safonau gwasanaeth, ein trafodaethau â'r Cyngor. Cynhaliwyd y trafodaethau hyn yn ystod mis Ionawr a mis Chwefror 2018. Gwnaeth hyn ein helpu i ddeall rhesymeg y Cyngor dros y newidiadau i'r gwasanaeth llyfrgell a'r ffordd y mae'r Cyngor yn mynd ati i ddiwallu anghenion a bodloni disgwyliadau defnyddwyr gwasanaethau ac ymateb i'w hanghenion a'u disgwyliadau.

7 Nodwyd gennym fod **y rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaethau yn fodlon ar ansawdd a hygyrchedd eu llyfrgell leol, ac mae'r Cyngor yn gwneud defnydd**

[1] Llywodraeth Cymru, **Papur Gwyn Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad,** Ionawr 2017.

**da o safbwyntiau pobl i foderneiddio'r gwasanaeth.** Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Cyngor yn gwneud defnydd da o safbwyntiau pobl i foderneiddio'r gwasanaeth llyfrgell;
- mae'r Cyngor wedi gwella safonau ac mae defnyddwyr gwasanaethau'n fodlon iawn ar ansawdd y gwasanaeth llyfrgell; a
- Gall pobl gael mynediad at wasanaethau llyfrgell yn hawdd.

## Cynigion ar gyfer gwella

8 Nid oes unrhyw gynigion ar gyfer gwella.

# Adroddiad manwl

## Mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaethau yn fodlon ar ansawdd a hygyrchedd eu llyfrgell leol, ac mae'r Cyngor yn gwneud defnydd da o safbwyntiau pobl i foderneiddio'r gwasanaeth

### Mae'r Cyngor yn gwneud defnydd da o safbwyntiau pobl i foderneiddio'r gwasanaeth llyfrgell

9 Ymgysylltodd y Cyngor yn eang â rhanddeiliaid ynghylch ei raglen moderneiddio llyfrgelloedd ac mae tystiolaeth bod y gwasanaeth llyfrgell yn addasu ei gynigion mewn ymateb i adborth. Er enghraifft, yn 2011, ymgynghorodd y Cyngor ynghylch newidiadau arfaethedig i'r gwasanaeth llyfrgell, gan ddefnyddio'r canlyniadau er mwyn helpu i lywio ei strategaeth moderneiddio llyfrgelloedd. At hynny, ysgogodd adborth gan randdeiliaid y Cyngor i ailystyried cynigion i gau nifer o lyfrgelloedd bach yn y sir ac, ar ôl ymchwilio i opsiynau amgen, trosglwyddodd y Cyngor bum llyfrgell fach i'r gymuned.

10 Yn fwy diweddar, mae'r Cyngor wedi ymgysylltu'n helaeth ynghylch cynnig i sefydlu Canolfan Ddiwylliant newydd yng Nghonwy. Defnyddiodd y broses ymgynghori sawl dull i dargedu amrywiaeth eang o bobl, gan gynnwys grwpiau ieuenctid a phobl â nodweddion gwarchodedig a phroblemau mynediad. Oherwydd yr adborth a gafwyd, newidiodd y Cyngor gynllun yr adeilad newydd arfaethedig ac mae'n defnyddio awgrymiadau gan y cyhoedd i ddatblygu'r mathau o weithgareddau a gynhelir yn y Ganolfan. Rhannodd y Cyngor ganlyniadau'r ymgynghoriad, a'i ymateb i'r materion a godwyd, yn un o gylchlythyrau'r Ganolfan Newydd. Bydd rhifynnau dilynol o'r cylchlythyr yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bartïon â diddordeb am ddatblygiadau i'r Ganolfan Ddiwylliant.

11 Mae'r Cyngor hefyd yn ymgysylltu â defnyddwyr llyfrgelloedd yn barhaus. Yn dilyn adolygiad o batrymau defnydd, ymgynghorodd y gwasanaeth llyfrgell â defnyddwyr ynghylch newidiadau arfaethedig i oriau agor, gyda defnyddwyr llyfrgelloedd yn gallu pleidleisio dros yr opsiwn roeddent yn ei ffafrio. Mae'r gwasanaeth llyfrgell hefyd yn cynnal arolwg o'i ddefnyddwyr bob tair blynedd er mwyn cael adborth ar berfformiad a gwybodaeth am flaenoriaethau defnyddwyr gwasanaethau[2].

12 Mae gan staff y llyfrgelloedd y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth dda o anghenion defnyddwyr gwasanaethau. Drwy eu hymwneud â defnyddwyr bob dydd, mae staff yn cael adborth a barn pobl yn rheolaidd. Mae hon yn ffordd ddefnyddiol ac anffurfiol o drosglwyddo gwybodaeth rhwng defnyddwyr gwasanaethau a'r gwasanaeth ac mae'n ategu'r blychau awgrymiadau mewn llyfrgelloedd a'r cyfleuster sylwadau ar-lein ar wefan y Cyngor. Gwelsom

[2] Cynhelir yr arolwg fel rhan o ofynion Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru.

enghreifftiau o'r gwasanaeth llyfrgell yn ymateb yn gadarnhaol i geisiadau gan ddefnyddwyr; newid y lleoliadau lle mae'r llyfrgell deithiol yn stopio, er enghraifft. Mae staff llyfrgelloedd hefyd yn mynd i ddigwyddiadau lleol er mwyn hyrwyddo'r gwasanaeth llyfrgell a siarad ag aelodau o'r cyhoedd, gan gynnwys pobl nad ydynt yn defnyddio llyfrgelloedd.

## Mae'r Cyngor wedi gwella safonau ac mae defnyddwyr gwasanaethau'n fodlon iawn ag ansawdd y gwasanaeth llyfrgell

13 Mae rhaglen moderneiddio llyfrgelloedd y Cyngor wedi llwyddo i godi safonau ac mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau ansawdd y gwasanaeth llyfrgell yng Nghonwy. Mae Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru yn mesur perfformiad gwasanaethau llyfrgell ledled Cymru. Yn 2010-11, gwnaethant nodi bod perfformiad y Cyngor yn erbyn y safonau yn wan, gan ysgogi'r Cyngor i fynd ati i lunio ei strategaeth foderneiddio. Fodd bynnag, mae adroddiad blynyddol diweddaraf Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru[3] yn nodi bod y Cyngor yn cyflawni pob un o'i hawliau craidd ac mai Conwy yw'r unig gyngor yng Nghymru, ar hyn o bryd, sydd wedi cyflawni pob un o'r dangosyddion ansawdd â thargedau.

14 Dangosodd ein harolwg gyda defnyddwyr gwasanaethau hefyd fod pobl yn fodlon iawn ar ansawdd y gwasanaeth llyfrgell:

- Roedd pawb y gwnaethom siarad â nhw yn fodlon ar y gwasanaethau llyfrgell y maent yn eu defnyddio; ac
- Roedd 56% o'r bobl y gwnaethom siarad â nhw o'r farn bod y gwasanaeth llyfrgell yr un fath ag yr oedd dair blynedd yn ôl. Roedd 30% o'r farn ei fod yn well tra bod 10% o'r farn ei fod yn waeth.

15 Mae'r bobl y gwnaethom siarad â nhw yn rhoi gwerth mawr ar y gwasanaeth llyfrgell a chyfeiriodd llawer at y lefel uchel o wasanaeth cwsmeriaid a ddarperir gan staff llyfrgelloedd. Ymhlith agweddau eraill ar y gwasanaeth llyfrgell a ganmolwyd yn aml mae'r cyfleuster archebu llyfrau a'r ddarpariaeth ar-lein. Er bod llyfrgell leol rhai defnyddwyr gwasanaethau y gwnaethom siarad â nhw wedi cael ei chau a'i disodli gan y gwasanaeth llyfrgell deithiol, gwnaethant nodi eu bod yn ddiolchgar bod ganddynt wasanaeth lleol da o hyd.

16 Roedd y rhan fwyaf o'r bobl y gwnaethom siarad â nhw o'r farn bod eu gwasanaeth llyfrgell lleol cystal ag yr oedd dair blynedd yn ôl neu'n well. Roedd 10% o'r bobl o'r farn bod y gwasanaeth wedi dirywio; priodolwyd hyn yn aml i lai o ddewis o lyfrau mewn llyfrgelloedd cymunedol ac achosion lle roedd llyfrgell sefydlog wedi'i disodli gan y llyfrgell deithiol. Er bod yn well gan lawer o'r bobl hyn gael cyfle i bori drwy amrywiaeth eang o lyfrau, roedd y rhan fwyaf yn ymwybodol o'r gwasanaeth archebu llyfrau ac yn ei ddefnyddio.

[3] Llywodraeth Cymru, **Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2014-17: Adroddiad Asesu Blynyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2016-17**, Hydref 2017

17 Siaradodd llawer o ddefnyddwyr llyfrgelloedd yn gadarnhaol am y nifer gynyddol o weithgareddau sydd ar gael mewn llyfrgelloedd cymunedol. Mae sawl grŵp cymunedol bellach yn defnyddio adeiladau'r llyfrgelloedd y tu allan i oriau ac mae llawer o'r bobl y gwnaethom siarad â hwy yn Llanfairfechan yn ystyried bod y llyfrgell yn ganolfan gymunedol allweddol. Ymddengys fod cynnwys pobl leol ar bwyllgor y llyfrgell hefyd wedi atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng y llyfrgell a'r gymuned leol. Fodd bynnag, dywedodd rhai o aelodau'r pwyllgor wrthym y gallent wella'r defnydd a wneir o'r rhan o'r adeilad sy'n cynnwys y llyfrgell y tu allan i oriau gyda chymorth pellach gan y Cyngor.

18 Mae canlyniadau ein harolwg yn cyd-fynd ag arolwg mwyaf diweddar y Cyngor o ddefnyddwyr llyfrgelloedd.[4] Nododd yr arolwg fod 96% o'r oedolion o'r farn bod y gwasanaeth cyffredinol yn dda neu'n dda iawn a rhoddodd 91% o'r plant sgôr o 7 neu uwch i'r llyfrgell ar raddfa o 1-10. Nododd 97% o'r oedolyn a arolygwyd fod y gofal cwsmeriaid a ddarperir mewn llyfrgelloedd yn dda neu'n dda iawn ac roedd 86% o'r farn bod y dewis o lyfrau yn y llyfrgell yn dda neu'n dda iawn.

## Gall pobl gael mynediad at wasanaethau llyfrgell yn hawdd

19 Roedd y rhan fwyaf o'r bobl y gwnaethom siarad â nhw o'r farn y gallent gael gafael ar y gwasanaethau roedd eu hangen arnynt. Dywedodd 94% o'r defnyddwyr llyfrgelloedd y gwnaethom siarad â nhw fod oriau agor llyfrgelloedd yn gyfleus iddynt. Fodd bynnag, nododd llawer y byddai'n well ganddynt oriau agor hwy. Dylid nodi bod nifer fawr o'r bobl y gwnaethom siarad â nhw wedi ymddeol: gall defnyddwyr sydd ond yn gallu defnyddio llyfrgelloedd gyda'r nos ac ar y penwythnos fod â gwahanol farn am oriau agor.

20 Dengys y ffurflen fwyaf diweddar a gyflwynwyd gan y Cyngor ar gyfer Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru fod 89% o drigolion Conwy yn byw o fewn tair milltir i lyfrgell sefydlog neu chwarter milltir i arhosfan llyfrgell deithiol. Mae'r gwasanaeth llyfrgell deithiol yn ategu'r llyfrgelloedd sefydlog ac yn sicrhau y gall trigolion mewn ardaloedd gwledig, ddefnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn lleol. Mae gwasanaeth llyfrgell i'r cartref hefyd ar gael i bobl â phroblemau symud neu salwch hirdymor a fyddai'n ei chael hi'n anodd defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell fel arall. Mae'r Cyngor yn cydnabod pa mor bwysig yw'r gwasanaeth llyfrgell deithiol a'r gwasanaeth llyfrgell i'r cartref i ddefnyddwyr, yn enwedig y cyfleoedd i ryngweithio y maent yn eu cynnig i aelodau mwy ynysig o'r boblogaeth. O ganlyniad, mae'r gwasanaeth llyfrgell yn ystyried ffyrdd y gall sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn fwy cynaliadwy yn yr hirdymor drwy edrych ar opsiynau ar gyfer modelau ariannu amgen gyda phartneriaid.

21 Mae llawer o'r defnyddwyr llyfrgelloedd y gwnaethom siarad â nhw yn rhoi gwerth ar gyfleusterau ar-lein y gwasanaeth llyfrgell. Gall defnyddwyr llyfrgelloedd reoli eu

[4] Arolygodd y Cyngor ddefnyddwyr llyfrgelloedd yn 2015-16 a chafodd 1816 o ymatebion gan oedolion ac 456 gan blant.

cyfrifon, pori drwy gatalog y llyfrgell ac archebu llyfrau ar-lein i'w casglu yn eu llyfrgell leol neu deithiol. Gall defnyddwyr hefyd ddarllen amrywiaeth o lyfrau a chylchgronau ar-lein ac roedd cryn gyhoeddusrwydd yn cael ei roi i'r gwasanaethau hyn yn y llyfrgelloedd yr ymwelwyd â nhw.

22 Mae'r Cyngor yn cydnabod y potensial i gydleoli gwasanaethau er mwyn i lyfrgelloedd ddod yn 'siopau un stop' lle y gall pobl gael gafael ar amrywiaeth o wybodaeth a dysgu a manteisio ar gyfleoedd cymdeithasol. Mae' hyn eisoes yn digwydd yn llyfrgell ardal Bae Colwyn: mae staff o Goleg Llandrillo ac adran Refeniw a Budd-daliadau'r Cyngor yn rhannu'r safle â'r gwasanaeth llyfrgell, gan alluogi pobl i gael hyfforddiant mewn sgiliau digidol a chyngor a chymorth ynglŷn â budd-daliadau. Yn ogystal â darparu gwasanaethau ychwanegol i ddefnyddwyr presennol llyfrgelloedd, mae'r gwasanaethau hyn hefyd yn denu pobl nad ydynt yn ddefnyddwyr llyfrgelloedd i adeilad y llyfrgell. Dywedodd staff y llyfrgell wrthym fod yr amlygiad hwn i'r llyfrgell a'r adnoddau sydd ar gael wedi ysgogi rhai pobl i ymuno. Yn dilyn llwyddiant y dull hwn o weithredu, mae'r Cyngor yn ystyried cyfleoedd pellach i gydleoli ac integreiddio gwasanaethau.

# Atodiad 1

## Ffeithlun sy'n crynhoi canfyddiadau allweddol yr arolygon a gwblhawyd

Arddangosyn 1: ffeithlun y gwasanaeth llyfrgell



O'r sgyrsiau a gawsom, roedd yn glir bod y llyfrgelloedd, a'r gwasanaeth y maen nhw'n ei gynnig, yn bwysig i bobl:

Rwy'n hoffi'r ffaith 'mod i'n gallu gwneud mwy na darllen llyfrau yn y llyfrgell. Rwy'n gallu prynu bagiau ailgylchu, llungopïo etc

Mae llawer mwy o weithgareddau yn y llyfrgell rŵan. Mae rhywbeth ymlaen bob amser e.e. clwb llyfrau

Mae'n braf bod y llyfrgell deithiol yn stopio wrth ymyl y tŷ. Dwi wedi sôn wrth fy nghymdogion ac wedi rhoi poster yn y siop leol i annog rhagor o bobl i'w defnyddio.

Mae pobl hŷn y pentref yn dibynnu ar y gwasanaeth llyfrgell

Mae'n bwysig cadw'r llyfrgell ar agor i'r gymuned

Lle cynnes a braf i eistedd

Gwasanaeth gwirioneddol bwysig sy'n cynnig cryn dipyn – pethau sy'n aml yn anodd eu mesur ac yn anodd rhoi gwerth ariannol iddyn nhw."

Er i ni weld tystiolaeth a oedd yn dangos bod y Cyngor wedi ymgynghori â phobl ynghylch newid y gwasanaeth llyfrgell, dywedodd y rhan fwyaf o'r defnyddwyr nad oedd neb wedi gofyn am eu barn nhw. O ganlyniad, nid oedd y rhan fwyaf ohonyn nhw'n siŵr a oedd y Cyngor yn gwrando ar farn pobl am y gwasanaeth llyfrgell ac yn gweithredu ar sail y farn honno:



Dim ond **32%** o'r rhai y gwnaethom siarad â nhw ddywedodd fod y Cyngor wedi gofyn am eu barn am y gwasanaeth llyfrgell yn ystod y tair blynedd diwethaf.

Nid oedd y rhan fwyaf o'r rhai y gwnaethom siarad â nhw yn siŵr a oedd y Cyngor yn gwrando ar farn pobl am y gwasanaeth llyfrgell ac yn gweithredu ar sail y farn honno - dywedodd 56% nad oeddent yn gwybod pan gawsant eu holi am eu llyfrgell leol ac roedd 70% yn ansicr ynghylch y gwasanaeth llyfrgell yn gyffredinol yn y sir.

Rwy'n amau eu bod yn gwneud eu gorau o ystyried y toriadau ariannol

Darllenwch yr adroddiad llawn ar wasanaeth llyfrgell Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar ein gwefan: www.archwilio.cymru

Staff Swyddfa Archwilio Cymru gynhaliodd yr arolwg hwn, a hynny ym mis Ionawr 2018 yn llyfrgell Conwy, llyfrgell gymunedol Llanfairfechan a'r llyfrgell deithiol yn Neganwy. Gwnaethom siarad â 50 o bobl a oedd yn defnyddio'r llyfrgell.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru